Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Brynaman

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae gan Ysgol Brynaman amgylchedd cartrefol a chroesawgar, lle caiff disgyblion eu parchu gan yr holl staff. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu ystod dda o fedrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gryfder nodedig, ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn darparu gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda gan dîm o gynorthwywyr effeithiol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan weithredol yn eu gwersi. Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau priodol i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn dod yn ddysgwyr fwyfwy annibynnol o ganlyniad i fireinio dulliau addysgu yr ysgol yn unol â Cwricwlwm i Gymru. Mae disgyblion yn cael cyfrifoldeb i gynrychioli eu cyfoedion ar grwpiau gwahanol, fel y cyngor ysgol. Er hyn, nid yw eu rôl wedi datblygu'n llawn i gael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda ac yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan uwch arweinwyr eraill. Gyda'i gilydd, maent yn creu amgylchedd lle mae'r holl staff yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cydweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol, ac yn darparu her, pan fo'n briodol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gywir, gyda'r holl staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gael mewnbwn i'r broses. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr ym ymateb yn rhagweithiol i gefnogi disgyblion i gyrraedd yn brydlon a chyson i'r ysgol. Er hyn, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn parhau i gyrraedd yr ysgol yn hwyr ac yn gyffredinol, mae'r cyfraddau presenoldeb yn rhy isel.

# Argymhellion

**A1** Mynd i'r afael â'r mater lles a godwyd yn ystod yr arolygiad

**A2** Gwella presenoldeb a phrydlondeb

**A3** Datblygu rôl arwain disgyblion i gael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag ysgogi disgyblion i siarad Cymraeg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynaman |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 275 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 226 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 23.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 46.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.